CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL
Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Ebost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Rhagfyr 18 2018 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday December 18 2018 at 7pm.

Presennol/*Present:* Gordon Warren (Cadeirydd/Chair), Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Meg Roberts, Carys Cranston, Gina Jones, Liz Wood, Mike Roberts, Kevin Ellis (late/hwyr), Julie Ann Hughes (late/hwyr) Cyng/Cllr Aled Jones, Cyng/Cllr Richard Griffiths

Yn bresennol/*In attendance*: Carli Evans-Thau (Clerc/*Clerk),* Richard Roberts (Cyfieithu/*Translation),* Aelodau o'r cyhoedd / *Members of the public.*

Ymddiheuriadau/*Apologies*: John Byast, Gerry Belanger, Richard Jones, Tony Fitzmaurice

1 Croeso ac Ymddiheuriadau/*Welcome and Apologies*
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gordon Warren ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
Cyn dechrau'r cyfarfod, diolchwyd i'r Cadeirydd am drefnu noson dda yn y Neuadd Goffa i Ddathlu'r Nadolig. Diolchodd y Gordon Warren i Liz Wood am ei chefnogaeth.

Cynnigwyd bod y Cyngor yn cymeradwyo, yn unol ag Adran 85(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y rheswm na all Cyng. John Byast fynychu cyfarfodydd yr awdurdod, yw afiechyd. Cynnig derbyn ei ymddiheuriadau am beidio a mynychu dros gyfnod ei salwch. Cynnig Myrddin Owens, eilio Gareth Roberts, derbyniwyd y cynnig.

Nodwyd nad oedd Gerry Belanger yn gallu mynychu cyfarfodydd Cyngor am resymau tebyg. Cynnigwyd bod y Cyngor yn derbyn ei ymddiheuriadau am beidio a mynychu dros gyfnod salwch. Cynnig Carys Cranston, eilio Gareth Roberts, derbyniwyd y cynnig.

The meeting was chaired by Gordon Warren and all present were welcomed.
Before commencing the meeting proper, the Chair was thanked for arranging an enjoyable evening at the Memorial Hall to Celebrate Christmas. Gordon Warren thanked Liz Wood for her support.

It was proposed that the Council approve, in accordance with section 85(1) of the Local Government Act 1972 the reason that the reason Cllr John Byast is unable to attend meetings of the authority, the reason being ill health. Proposed to accept his apologies for non-attendance for the duration of his ill health. Proposed Myrddin Owens, seconded Gareth Roberts, motion agreed.

It was noted that Gerry Belanger was also unable to attend meetings for a similar reason. Agreed that the Council accept his apologies for non-attendance over a period of ill health. Proposed Carys Cranston, seconded Gareth Roberts, motion agreed.

2 Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*
Gareth Roberts – Craig y Don (Materion yn Codi/Matters Arising)

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of the last meeting*
Derbyniwyd y cofnodion gyda'r gwelliannau canlynol –
5.1 Prydes Maes Llwyn – nodwyd mai dogfen ddrafft fydd yn cael ei baratoi yn y flwyddyn newydd.

5.4 – Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y datganiad a wnaethpwyd gan y Cynghorydd Richard Jones yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, i'r effaith nad oedd y Cyngor wedi gwneud dim yn ystod y deng mlynedd ar hugain, yn gywir, a bod gwneud datganiad o'r fath yn dwyn anfri ar y Cyngor. Dywedodd y Cadeirydd ymhellach bod angen cadarnhau'r holl waith a gyflawnwyd gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

5.5 – Arian wrth gefn – nodwyd yn y Saesneg mai External Auditor ac nid External Examiner ddylai fod wedi ei gynnwys.

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir – cynnig Gareth Roberts, eilio Meg Roberts.

The minutes were accepted with the following improvements –
5.1 Maes Llwyn Lease – it was noted that the draft document will be prepared in the new year.

5.4 – The Chair stated that the statement made by Councillor Richard Jones at the previous Council meeting, to the effect that the Council had done nothing in the last thirty years, was false, and that making such statement brought the Council into disrepute. The Chairman further stated that it was necessary to confirm all that the Council had achieved over recent years.

5.5 – Free reserves – it was noted that the English minutes should read External Auditor not External Examiner.

The minutes were confirmed a true record – proposed Gareth Roberts, seconded Meg Roberts.

4 Materion yn codi/*Matters Arising*

4.1 3 – Gwesty Bull Bay Hotel

Cadarnhawyd bod adborth wedi ei anfon at Cynllunio Cadnant yn dilyn eu cyflwyniad.
It was confirmed that feedback had been submitted to Cadnant Planning following their presentation

4.2 5.4 – Cyrhaeddiadau'r Cyngor Tref / *Town Council's Achievements*

Fe ofynnodd Carys Cranston fod enw unigolyn yn cael ei dynnu o'r cofnodion. Nodwyd na fyddai hyn yn digwydd; os y byddai'r unigolyn yn ymddwyn yn amhriodol eto bydd hawl gan y Cadeirydd benderfynnu ar y camau i'w cymryd. Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i atgoffa'r cyfarfod nad oedd gan y cyhoedd hawl i siarad heb wahoddiad. Nodwyd mai at ddefnydd y clerc at ddiben ysgrifennu'r cofnodion yn unig oedd pwrpas recordio cyfarfod.

Carys Cranston asked that an individual's name be removed from the minutes. It was noted that this would not happen; if the person behaved inappropriately again the Chair will have the right to decide on the steps to be taken. The Chair took the opportunity to remind the meeting that the public did not have the right to speak without invitation. It was noted that the purpose of recording a meeting was for the clerk's use for the purpose of writing the minutes only.

4.3 5.8 – Craig y Don

Bu i Gareth Roberts adael yr ystafell. Nodwyd bod trigolion yn bryderus bydd llai o waith yn cael ei gwblhau i ddiogelu'r ardal gan fod llai o arian grant wedi ei ddiogelu gan CSYM. Nodwyd bod Richard Jones yn edrych i fewn i'r mater. Gofynnwyd os oedd gan Aled Jones neu Richard Griffiths unrhyw ddiweddariad. Nodwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan CSYM yn cadarnhau bod gwaith archeolegol yn cymryd lle yn yr ardal dechrau Ionawr. Aled Jones i wneud ymholiadau pellach ac adrodd yn ol i'r cyfarfod nesaf. Liz Wood hefyd i wneud ymholiadau pellach.

Gareth Roberts left the room. It was noted that residents were concerned that less work would be completed to protect the area as less grant funding had been secured by the IACC. It was noted that Richard Jones was looking into the matter. It was asked if Aled Jones or Richard Griffiths had any update. It was noted that a letter had been received from the IACC confirming that archaeological work was due to commence in January. Aled Jones to make further inquiries and report back to the next meeting. Liz Wood also to make further inquiries.

4.4 5.10 – Cofrestr Diddordebau / *Register of Interests*

Dim ond rhai aelodau sydd wedi cwblhau'r ffurflen.
Only some members have completed the form.

5 Pwyllgorau Allannol / *External Meetings*

5.1 Siapio Cymunedau / *Place Shaping*

Nododd Carys Cranston mai fel cynrychiolydd o Caru Amlwch yr oedd wedi mynychu'r cyfarfod ac nid fel aelod o'r Cyngor. Ymddiheurodd nad oedd ganddi adroddiad i'w gyflwyno. Ymddiheurodd am gamddealltwriaeth yn y cyfarfod ble nododd Meg Roberts blaenoriaethau'r Cyngor, ond nad oedd rhain o reidrwydd yn flaenoriaethau'r gymuned gyfan.

Mae'r cyafarfod nesaf i'w gynnal Ionawr 29 yng Nghemaes ble bydd cyfle i ardal Twrcelyn drafod a chydweithio. Cytuno bydd Liz Wood yn cynrychioli'r Cyngor Tref yn y cyfarfodydd Siapio Cymunedau o hyn allan.

Carys Cranston noted that as she had attended the meeting as a representative of Caru Amlwch *and not as a member of the Council. She apologised that she had no written report to present. She apologised for a misunderstanding at the meeting where Meg Roberts identified the Council's priorities, but these were not necessarily the priorities of the whole community.*

The next meeting is to be held on January 29 in Cemaes where there will be an opportunity for the Twrcelyn area to discuss and work together. Agreed that Liz Wood would represent the Town Council in Place Shaping meetings from now on.

6 Pwyllgor Cyllid / *Finance Committee*

6.1 Adroddiad/*Report*

Cafwyd grynodeb gan Myrddin Owens o'r cyfarfod. Nodwyd bod y Cyngor wedi derbyn £1000 drwy gynllun y llithrfa a diolchwyd i'r clerc am ymgymryd a'r cynllun. Mewn trafodaeth gyda'r Clwb Pel Droed, deallwyd bod y clwb yn gobeithio datblygu cae 3G yn y dref, wrth gydweithio gyda CSYM a'r ysgolion. Gofynnwyd i'r Cyngor gefnogi'r prosiect. Nodwyd bod prydles y sgowtiaid bellach yn nwylo'r cyfreithiwr. Nid oes diweddariad gan yr ombwdsmon ynglyn a chwyn yn ymwneud a chynghorydd. Cafwyd wybod bod un cais am gefnogaeth ariannol wedi ei gyflwyno, ac nad oedd y pwyllgor yn ei gefnogi gan nad oedd yn dilyn cynsail y Cyngor. Mae rhestr o daliadau ar gael gan y clerc er gwybodaeth. Nodwyd er gwybodaeth bod cwyn/pryder wedi ei dderbyn gan Swyddfa'r Comisiynnydd Gwybodaeth. Bydd Myrddin Owens yn ymateb ar ran y Cyngor.

Myrddin Owens gave a summary of the meeting. It was noted that the Council had received £1000 through the slipway scheme and the clerk was thanked for undertaking the scheme. In discussion with the Football Club, it was understood that the club hoped to develop a 3G field in the town, in partnership with the IACC and the schools. The Council was asked to support the project. It was noted that the scout's lease is now in the hands of the solicitor. There is no update from the ombudsman regarding a complaint involving a member. It was reported that one application for financial support had been received, and that the committee did not support it as it did not follow the Council's precedent. A list of payments is available from the clerk for information. It was noted for information that a complaint/concern had been received from the Office of the Information Commissioner. Myrddin Owens will respond on behalf of the Council.

6.2 Cyllideb 2019/20 *Budget*

Dosbarthwyd copiau o'r daenlen yn amlinellu argymhellion y pwyllgor cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i bawb oedd yn bresennol er gwybodaeth. Esboniwyd bod peth cynydd yn yr arian oedd wedi ei glustnodi ar gyfer yr adeilad oherwydd bod angen mynedfa anabl. Rhagwelir byddai angen codi'r dreth blynyddol a gwario peth o'r arian sydd wrth gefn. Mae peth arian wedi ei glustnodi ar gyfer hyffoddiant hefyd. Cynnigwyd mai £137,288.98 fyddai cyllideb y Cyngor am 2019/20. Ni fu gwrthwynebiad.

Copies of a spreadsheet outlining the fiancé committee's recommendations for the next financial year were distributed to all present for information. It was explained that there was an increase in the amount of money allocated towards the building as there is a need to develop disabled access. It was foreseen that the annual rates would need to be increase as well as using some of the free reserves. Some monies have also been earmarked for training purposes. It was proposed that the Council's budget for 2019/20 is £137,288,98. There was no objection.

6.3 Archeb 2019/20 *Precept*

Roedd y pwyllgor cyllid yn argymell bod y dreth flynyddol yn cynyddu 5%. Fe ofynnodd Carys Cranston faint o arian oedd gan y Cyngor wrth gefn. Fe esboniwyd bod pedwar cyfrif ac fe gadarnhawyd y balans cyfredol fel a ganlyn –
Cyfrif cyfredol £58,282
Cyfrif wrth gefn £12,628
Cyfrif Shell £99,107
Cyfrif Canataxx £105,570
Pwysleiswyd bod arian cyfrif shell wedi ei glustnodi ar gyfer cefnogi mudiadau lleol drwy grantiau, a bod arian cyfrif canataxx wedi ei glustnodi er mwyn cynnig arian cyfatebol ar gyfer gallu denu grantiau mawr.

Cynnigwyd bod y dreth flynyddol yn codi 5% i £98,788.98, mae hyn yn gyfatebol i gynydd o £3 y flwyddyn i eiddo band D. Cynnig Myrddin Owens, eilio Gareth Roberts. Roedd chwech aelod yn gefnogol, dau yn gwrthwynebu ac un yn atal eu pleidlais.

Nodwyd nad oedd Richard Griffiths yn aelod o'r Cyngor Tref mwyach gan nad oedd wedi mynychu unrhyw gyfarfod dros gyfnod o chwe mis yn unol ac Adran 85(1) Deddf Llywodraeth Leol.

The finance committee recommended that the annual tax increase by 5%. Carys Cranston asked how much money the Council had in free reserve. It was explained that there were four accounts and the current balance was confirmed as follows –
Current account £ 58,282
Reserve account of £ 12,628
Shell Count £ 99,107
Canataxx Account £ 105,570
It was emphasised that the shell account money had been earmarked for supporting local organisations through grants, and that canataxx account money had been earmarked to offer match funding for the ability to attract large grants.

It was proposed that the annual tax was increased by 5% to £98,788.98, this is equivalent to the increase of £3 per year for a Band D property. Proposed by Myrddin Owens, seconded by Gareth Roberts. Six members were in favour, two opposed and one abstained.

It was noted that Richard Griffiths was no longer a member of the Town Council as he had not attended any meeting over a six month period in accordance with Section 85 (1) of the Local Government Act.

6.4 Arian Shell *Fund*

Roedd Richard Jones wedi gofyn am drafodaeth pellach am gronfa shell y Cyngor Tref, cytuno gohurio'r drafodaeth nes ei fod yn bresennol. Gofynnodd Carys Cranston am eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf i drafod arian wrth gefn ac asedau'r Cyngor Tref er mwyn cael gwell dealltwriaeth. Nodwyd ei fod yn bwyisig i Cyngor gael peth arian wrth gefn er mwyn diogelu'r Cyngor a gwasanaethau, mae'r archwiliwr yn derbyn hyn.

Richard Jones had asked for further discussion about the Town Council's shell fund; agreed to defer the discussion until he was present. Carys Cranston asked for an item on the agenda of the next meeting to discuss the reserves and assets of the Town Council in order to gain a better understanding. It was noted that it was important for a Council to have some reserves in order to protect the Council and services, the auditor accepts this.

7 Adroddiad Parciau a Mannau Agored/*Parks and Open Spaces Report*

Cafwyd grynodeb gan Mike Roberts o'r hyn drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Nododd bod chwe aelod i'r pwyllgor a'i fod yn siomedig bod dau gyfarfod diwethaf wedi eu gohurio oherwydd diffyg presenoldeb.

Cydnabuwyd cyfraniad Caru Amlwch i waith y pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf a gobeithir gallu cydweithio eto yn y flwyddyn ariannol nesaf. Nid oes diweddariad am y cais i'r Loteri hyd yma. Gobeithir gallu trefnu cyfarfod yng Nghraig y Don cyn diwedd yr wythnos i drafod gosod yr offer chwarae newydd.

Mae trafodaethau yn parhau ynglyn a'r telesgop ar Mynydd Parys i ddathlu 250 mlynedd ers canfod copr.

Cadarnhawyd bod y pwyllgor am i'r contractiwr torri gwair barhau a'r gwaith am ddwy flynedd arall yn unol a'r gytundeb gwreiddiol. Nodwyd bod angen gwneud ymholiadau pellach a thirfeddianwyr er mwyn gallu gosod meinciau ar llwybrau megis Porth Llechog.

Mike Roberts summarised what was discussed at the last meeting. He noted that there were six members to the committee and that he was disappointed that two last meetings had been rescheduled due to lack of attendance.

Caru Amlwch's contribution to the work of the committee was recognised over the last year and it is hoped that there will be a chance to work again in the next financial year. There is no update on the Lottery bid to date. It is hoped that a meeting can be arranged at Craig y Don before the end of the week to discuss the installation of the new play equipment.

Discussions are ongoing regarding the telescope on Parys Mountain to celebrate 250 years since the great find.

It was confirmed that the committee wanted the grass cutting contractor to continue and work for another two years in accordance with the original agreement. It was noted that further inquiries and landowners need to be done so that benches could be placed on routes such as Bull Bay.

Fe ofynnodd Carys Cranston pam nad oedd Richard Griffiths yn gynghorydd mwyach. Roedd wedi gwirio gwefan y Cyngor ar roedd wedi ei gynnwys yno ar restr aelodau'r Cyngor. Nododd Richard Griffiths nad oedd wedi derbyn unrhyw ohebiaeth na nodyn atgoffa ynglyn a'r mater. Cadarnhaodd Myrddin Owens mai mater cyfreithiol oedd hwn ac nid mater i'r Cyngor Tref. Fe ofynnodd Liz Wood a ddylai'r Cyngor drafod y mater. Teimlai Richard Griffiths nad oedd yn gallu mynychu cyfarfodydd am resymau amlwg. Cadarnhaodd y cadeirydd mai mater cyfreithiol oedd diffyg presenoldeb. Rhoddwyd copi o'r ddeddf i Carys Cranston ei ddarllen.

Bu i Richard Griffiths adael y cyfarfod am 19.50 gan nodi ei fod yn bwriadu ei roi ei enw ymlaen yn gynghorydd eto. Roedd Liz Wood am drafod y sefyllfa ymhellach, cafwyd cadarnhad eto mai dim mater i'r Cyngor oedd hwn ond Deddf Gwlad sef Adran 85(1) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Nid oedd Liz Wood yn cytuno a bu iddi adael y cyfarfod am 19.56.

Pwysleiswyd pwysigrwydd cadw at a dilyn rheoliadau'r Cyngor a bod yr aelodau yn ymwybodol ac yn deall eu gofynnion. Teimlai rhai aelodau bod bwlio a cwestiynnu yn y Siambr, a bod rhai aelodau yn cael eu targedu ar y we megis Facebook. Roedd Meg Roberts wedi ei siomi gydag agwedd gwr i gyd-gynghorydd yn ol ym mis Awst. Fe ofynnodd Julie Hughes pam nad oedd y mater yma wedi ei drafod ym mhresenoldeb Liz Wood. Bu i Julie Hughes adael y cyfarfod am 20.05.

Pwysleisiodd Gareth Roberts pwysigrwydd cydweithio fel Cyngor er budd y gymuned. Mae nifer o faterion pwysig iawn i'w trafod, materion fydd o bosib yn cael effaith mawr ar yr ardal. Mae yn anodd iawn cyflawni a llwyddo tra bod ffraeo a checru. Mae'n bwysig cwestiynnu a thrafod materion yn y Siambr er mwyn sicrhau bod llais pob aelod yn cael ei glywed.

Carys Cranston asked why Richard Griffiths was no longer a councillor. She had checked the Council's website as his name was included on the list of members. Richard Griffiths noted that he had not received any correspondence or reminder regarding the matter. Myrddin Owens confirmed that this was a legal issue and not a matter for the Town Council. Liz Wood asked whether the Council should discuss the matter. Richard Griffiths felt that he was unable to attend meetings for obvious reasons. The chairman confirmed that there was a legal issue of lack of attendance. A copy of the act was given to Carys Cranston to read.

Richard Griffiths left the meeting at 19.50 stating that he was planning to put his name forward as an advisor again. Liz Wood wanted to discuss the situation further, it was confirmed again that this was not a matter for the Council rather legislation, Section 85 (1) of the Local Government Act 1972. Liz Wood did not agree and left the meeting at 19.56.

The importance of adhering to and following Council regulations was emphasised and that members were need to be aware and understood what is expected. Some members felt that there was bullying and questioning in the Chamber, and that some members were targeted on the web such as Facebook. Meg Roberts was disappointed with the attitude of a co-councillor's husband in August. Julie Hughes asked why this matter had not been discussed in the presence of Liz Wood. Julie Hughes left the meeting at 20.05.

Gareth Roberts emphasised the importance of working together as a Council for the benefit of the community. There are a number of important issues to discuss, issues that may have a big impact on the area. Achievement and success is very difficult while fighting and bickering. It is important to question and discuss issues in the Chamber to ensure the voice of each member is heard.

8 Wylfa Newydd

Cafwyd ddiweddariad o'r hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd mewn perthynas a'r datblygiad. Deallwyd bod Llywodraeth Cymru wedi galw'r cais i glirio a paratoi'r safle i fewn i'w ystyried ymhellach. Mae CSYM wedi cymeradwyo'r cais yn groes i ddymuniadau'r cymunedau lleol.

Mae gwrandawiadau'r broses cynllunio DCO gyda'r arolwgwyr yn cychwyn yn fuan yn y flwyddyn newydd.

An update was given of current activities with regard to the development. It is understood that the Welsh Government has called in the application for site preparation and clearance for further consideration. IACC have approved the application despite objection from local communities.

The hearings as part of the DCO planning process will commence with the inspectorate in the new year.

9 Siapio Cymunedau / *Place Shaping*

Wedi ei drafod eisioes – gweler pwyllgorau allannol uchod.
Already discussed – see external meetings above.

10 Cyfryngau Cymdeithasol / *Social Media*

Fe ofynnwyd beth oedd barn yr aelodau am i'r Cyngor gael dalen ar wefan Facebook. Roedd pryderon am reoli cynnwys dalen o'r fath a sut oedd y cyhoedd yn rhyngweithio ag o. Nodwyd bod gan y Cyngor wefan eisioes. Fe ofynnwyd bod adroddiad yn cynnwys y ddadl o blaid ac yn erbyn cael dalen oi'r fath yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

The question was raised as to the members' opinion on having a Council page on Facebook. There were concerns regarding the control of such a page and how the public interaction was managed. It was noted that the Council already has a website. It was asked that a report to include the argument for and against having such a page be presented at the next meeting.

11 Cwestiynnau i'r Cynghorwyr Sirol / *Questions to the County Councillors*

Fe ofynnwyd os oedd unrhyw ddiweddariad am y llwybr ym Maes Salem, Aled Jones i gysylltu a'r swyddogion perthnasol.

Cytuno disgwyl nes bydd Richard Jones a Richard Griffiths yn bresennol i gael diweddariad gan y Grwp Rheoli am safbwynt CSYM a datblygiad Wylfa Newydd.

Fe ofynnodd Meg Roberts am ffigyrau diweddaraf y Ganolfan Hamdden gan nad oedd unrhyw ddiweddariad ers peth amser. Ymddiheurwyd bod camddealltwriaeth ac y byddai'r clerc yn cyflwyno cais rhydid gwybodaeth cyn gynted a phosib.

It was asked if there was any update on the path at Maes Salem, Aled Jones to contact the relevant officers.

Agree to wait until Richard Jones and Richard Griffiths are present for an update from the Ruling Group for the development of New Wylfa and IACC stance.

Meg Roberts asked for the latest Leisure Centre figures as there has been no update for some time. Apologies were given that there was a misunderstanding and that the clerk would submit a freedom of information request as soon as possible.

12 Strategaeth Toiledau – Ymgynghoriad/*Toilets Strategy - Consultation*

Nodwyd bod CSYM yn casglu gwybodaeth ar hyn o bryd i ddatblygu strategaeth toiledau cyhoeddus. Cytuno dylai pob aelod gwblhau'r holiadur fel unigolion ac y dylai'r Cyngor hefyd ymateb yn nodi dylai perchnogaeth a rheolaeth y cyfleusterau aros gyda'r Cyngor Sir.

It was noted that the IACC is currently collating information to develop a public toilets strategy. Agreed that each member should complete the questionnaire as individuals and that the Council should also respond stating that ownership and management of the facilities should remain with the County Council.

13 Gohebiaeth / *Correspondence*

Dim/*None*

14 Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business*

14.1 Treuliau Cynghorwyr Sir/*County Councillors Allowances*

Nodwyd siom bod cynnigion i gynyddu treuliau a dalwyd cynghorwyr sirol tra fod torriadau enbyd mewn mannau eraill o'r gyllideb. Nododd Aled Jones nad oedd y drafodaeth ar dreuliau wedi cymryd lle hyd yma, ac na fyddai yn cymryd yr arian ychwanegol. Nododd bod y Grwp Rheoli yn trafod cynydd o 7-10% yn y dreth flynyddol ar hyn o bryd. Nodwyd bod aelodau Cyngor Tref Amlwch wedi cytuno peidio derbyn unrhyw dreuliau a gofynnwyd bod y cynghorwyr sirol yn gwrthod y cynydd yn eu treuliau hwythau hefyd. Diolchwyd i Aled Jones am ei safiad.

It was noted that there were proposals to increase the expenses paid to county councillors while there were serious cuts elsewhere in the budget. Aled Jones noted that the expenses debate had not yet taken place, and that he would not accept the increase. He noted that the Ruling Group were currently discussing 7-10% increase in the annual rates. It was noted that members of Amlwch Town Council had agreed not to receive any expenses and it was requested that the county councillors also refused to increase their expenses. Aled Jones was thanked for his stance on the matter.

14.2 Ymddiriedolaeth Elusennol Mon / *Anglesey Charitable Trust*

Nododd Carys Cranston bod y gronfa yn derbyn ceisiadau am grantiau mawr ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Aled Jones byddai cyfle i geisio am grantiau llai yn fuan y flwyddyn nesaf.

Carys Cranston noted that the fund is currently inviting applications for large grants. Aled Jones confirmed that there would be an opportunity to apply for smaller grants early next year.

15 Dyddiad y cyfarfod nesaf/*Date of next meeting*

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth Ionawr 22 2019 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.
The next meeting will take place on Tuesday January 22nd 2019 at 7pm at the Council Chamber.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30 / *The meeting closed at 20.30*

Arwyddwyd / Signed:
Gordon Warren, Cadeirydd / Chair